

Gwers 2

Pysgod a fy ffrindiau

Cyflwyniad

Esboniwch i'r plant y byddan nhw'n darganfod beth ydy barn y dosbarth am bysgod.

Defnyddiwch y **BGRh Arolwg pysgod** gyda'r plant. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddarllen gwybodaeth o siartiau ac i greu siartiau. Gweithiwch trwy'r gweithgareddau gyda'r plant a dangos iddyn nhw sut i ddarllen siartiau a sut i gofnodi gwybodaeth trwy ddefnyddio ticiau a pictogramau (Cadwch y sgrin *Blasu pysgod* at ddiwedd y gweithgaredd blasu).

Gweithgaredd

Esboniwch i'r plant y byddan nhw'n blasu gwahanol fathau o bysgod a phrydau bwyd pysgod. Trefnwch sampl bychan o ddau neu dri o wahanol bysgod/prydau bwyd pysgod fel corgimwch neu baté macrell wedi'i gochi (ar ddarnau bach o dost neu gracyr/bara ceirch).

Rhowch gopi o'r **daflen Blasu pysgod** i bob plentyn ac esboniwch sut i gwblhau'r dasg. Rhowch ddogn maint sampl i bob plentyn o'r gwahanol fathau o bysgod/prydau bwyd pysgod. Dangoswch y **daflen Geiriau disgrifio** i helpu'r plant i ddisgrifio eu profiadau.

Ar ôl y gweithgaredd blasu, gofynnwch i'r plant ddarganfod pa bysgod/pryd bwyd pysgod oedd y mwyaf poblogaidd. Rhowch y **taflenni gwaith Arolwg pysgod – (a) a (b)** iddyn nhw. Yna gall y plant symud o gwmpas y dosbarth i ddarganfod pa bysgodyn/pryd bwyd pysgod oedd y ffefryn. Atgoffwch nhw i gynnwys eu hoff un nhw eu hunain! Mae modd iddyn nhw ddechrau trwy gasglu'r data fel siart cyfrif ac yna llunio pictogram.

Sesiwn i gloi

Dychwelwch at y **BGRh Arolwg pysgod** (sgrin Blasu Pysgod). Gofynnwch i bob plentyn beth oedd ei hoff bysgodyn/pryd bwyd pysgod. Wrth i bob plentyn ymateb, cadwch gyfrif o'u hatebion i ddangos sut y mae siart cyfrif yn gweithio. Gofynnwch i rai o'r plant roi'r rhesymau dros eu dewis. Cyfrwch y cyfanswm ar gyfer pob bysgodyn/pryd bwyd pysgod a gofynnwch i'r plant wirio os oes ganddyn nhw'r un cyfansymiau.

Estyniad

Sut y mae pobl yn bwyta gwahanol fathau o bysgod? Anogwch y plant i feddwl am ddefnyddio eu bysedd (pysgod a sglodion neu frechdan bys pysgod), gweill bwyta [chopstick] (sushi neu stir-fry corgimwch), llwyau (stiw pysgod neu pilau corgimwch), cylllell a fforc (fflan macrell neu bastai pysgod) neu ffon llyisiau (dip macrell).

Amcanion

Fe fydd y wers hon yn galluogi'r plant i:

- wybod sut y mae modd casglu gwybodaeth mewn tablau a siartiau
- casglu gwybodaeth gan eu cyd ddisgyblion, am eu dewis o bysgod ac arddangos hyn ar siart;
- trafod eu canlyniadau.

Adnoddau

- PowerPoint Trefnu blasu
- slip caniatâd Blasu a gwneud
- BGRh Arolwg pysgod
- taflen waith Blasu pysgod
- taflen waith Disgrifio
- taflenni gwaith Arolwg pysgod – (a) a (b)

Nodyn cyn y wers!

- Edrychwch ar yr wybodaeth ynghylch cynnal gweithgaredd blasu yn y **PowerPoint Trefnu blasu**. Efallai yr hoffech nodi rhai o'r sleidiau o'r cyflwyniad yma i'w rhannu gyda'r plant e.e. sleidiau 7 ac 8 Blasu a geiriau blasu.
- Anfon y **slip caniatâd Blasu a gwneud** i rieni/gofalwyr i'w lenwi. Efallai y bydd angen addasu bwydydd a ryseitiau yng ngoleuni'r wybodaeth yma.
- Ar gyfer y gweithgaredd blasu, dim ond sampl bach fydd ei angen. Dylai pecyn bach o gorgimwch ffres wedi'u plicio a'u coginio (tua 150g) fod yn ddigon i ddosbarth o blant i flasau un yr un. Fe fydd un potyn o baté macrell yn ddigon i bob plentyn gael blas ar ddarn bach ar gracyr/bara/bara ceirch.
- Torrwch y geiriau allan o'r **daflen Geiriau disgrifio**. Efallai y byddai'n syniad da lamneiddio'r rhain.

Awgrym:

- Efallai yr hoffech chwarae'r fideo ryseitiau sydd yn cynnwys y bysgod/prydau bwyd pysgod yr ydych yn eu blasu. Mae'r rhain ar gael yn www.fishisthedish.co.uk/education

